# Memorandwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian

*Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

**Hydref 2001**

# Cynnwys

Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian ........ 1
Cyflwyniad ........ 1
Adroddiadau a gyhoeddwyd a'r gwaith sy'n mynd rhagddo ........ 1
Effaith ariannol ........ 2
Rhaglen arfaethedig archwiliadau gwerth am arian ........ 5
Cost rhaglen arfaethedig archwiliadau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol ........ 11
Casgliad ........ 11
Atodiad A: Pynciau posibl ar gyfer archwiliadau gwerth am arian gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ........ 12
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ........ 12
Addysg a Hyfforddiant ........ 16
Datblygiad Economaidd ........ 19
Amgylchedd, Trafnidiaeth a Chynllunio ........ 22
Amaethyddiaeth a Datblygiad Gwledig ........ 25
Llywodraeth Leol a Thai ........ 27
Diwylliant a Chwaraeon ........ 29
Gweinyddiaeth y Cynulliad ac astudiaethau traws-bynciol ........ 30

# Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian

## Cyflwyniad

1. Mae'r memorandwm hwn yn amlinellu fy rhaglen arfaethedig ar archwiliadau gwerth am arian ar gyfer 2002-2003 a'r blynyddoedd dilynol. Cyn i mi derfynu fy rhaglen archwiliadau gwerth am arian, byddwn yn croesawu sylwadau a barn y Pwyllgor a byddaf yn rhoi ystyriaeth lawn i'r rhain wrth osod fy mlaenoriaethau ar gyfer y rhaglen. Bydd y Pwyllgor yn cofio i'm rhaglen derfynol mewn blynyddoedd blaenorol gael ei chadarnhau ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor yn y cyfarfodydd cyfatebol – y cyfarfod cyntaf bob hydref.

2. Mae'r memorandwm hwn felly yn gwahodd y Pwyllgor unwaith eto i hysbysu Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r pynciau sydd o ddiddordeb arbennig i aelodau ac i awgrymu unrhyw bynciau posibl eraill nad ydynt yn cael eu cynnwys yn fy rhestr arfaethedig. Yn hyn o beth, cyn troi at fy argymhellion, amlinellaf yn y paragraffau canlynol adolygiad o adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwaith sy'n mynd rhagddo ac effaith ariannol fy ngwaith gwerth am arian.

## Adroddiadau a gyhoeddwyd a gwaith sy'n mynd rhagddo

3. Ers hydref y llynedd rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol:

   - *Trefniadau adeiladau Cynulliad Cenedlaethol Cymru*
   - *Sicrhau yr incwm mwyaf oddi wrth daliadau presgripsiynau*
   - *Esgeulustra Clinigol o fewn yr GIG yng Nghymru*
   - *Addysgu a hyfforddi gweithlu iechyd proffesiynol y dyfodol yng Nghymru*
   - *Sicrhau dyfodol Bae Caerdydd*
   - *Caffael yn y sector addysg bellach*

   Mae'r Pwyllgor wedi cael y cyfle i gymryd tystiolaeth ar y pum adroddiad cyntaf uchod; trefnwyd bod yr adroddiad olaf ar y rhestr yn cael ei hystyried yn yr un sesiwn dystiolaeth â'r memorandwm hwn.

4. Yn ogystal â'r corff o waith gwerth am arian yr wyf wedi ei gyhoeddi ers ymgymryd â'r swydd hon, mae staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru – yr wyf yn ddibynnol ar eu gwasanaethau – ar hyn o bryd, yn cymryd rhan, ar gamau amrywiol, mewn nifer o archwiliadau eraill. Bydd y gwaith hwn sy'n mynd rhagddo yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer sesiynau tystiolaeth nesaf y Pwyllgor

yn y flwyddyn newydd hyd at wyliau'r haf, a hydref nesaf. Mae'r archwiliadau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd, ynghyd â'u cynnydd hyd at Hydref 2001, fel a ganlyn:

| ***Archwiliad*** | ***Cynnydd*** |
|---|---|
| Cau Canolfan Y Celfyddydau Gweledol | Yr adroddiad i'w gyhoeddi yn Nhachwedd 2001 |
| Rheoli ystad GIG | Yr adroddiad i'w gyhoeddi yn Nhachwedd 2001 |
| Adnewyddu a gwaredu Ystad GIG | Yr adroddiad i'w gyhoeddi yn Rhagfyr 2001 |
| Gweithredu trefniadau olynol ar gyfer Bae Caerdydd | Yr adroddiad yn cael ei ddrafftio |
| Rheoli'r ystad addysg bellach | Yr adroddiad yn cael ei ddrafftio |
| Adolygiad o gymorth a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer y project LG | Yr adroddiad yn cael ei ddrafftio |
| Gweinyddu cyllid strwythurol yr UE | Yr adroddiad yn cael ei ddrafftio |
| Gwasanaethau glanhau ysbytai | Gwaith maes yn mynd rhagddo |
| Gwasanaethau arlwyo ysbytai | Gwaith maes yn mynd rhagddo |
| Caffael systemau TG y Cynulliad | Ymchwilio i gwmpas yr astudiaeth |
| Rheoli casgliadau Amgueddfeydd ac Orielau Cymru | Ymchwilio i gwmpas yr astudiaeth |
| Gwaith cynnal priffyrdd | Ymchwilio i gwmpas yr astudiaeth |

## Effaith ariannol

5. Ar adegau blaenorol, pan rwyf wedi trafod fy nghynlluniau am waith gwerth am arian gyda'r Pwyllgor, mae aelodau wedi pwysleisio pa mor bwysig yn eu barn hwy yw datblygu potensial fy ngwaith i nodi arbedion ariannol. Rwyf wedi sicrhau felly bod fy rhaglenni, yn benodol, yn cynnwys ystod o bynciau sy'n canolbwyntio ar y rhagolygon ar gyfer sicrhau arbedion. Yn 2001-2002, er enghraifft, mae'r gwaith o archwilio gwasanaethau glanhau ysbytai ac arlwyo ysbytai, yn ogystal â chaffael yn y sector addysg bellach, yn debygol o nodi'r cwmpas am arbedion ariannol.

6. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am yr arbedion a nodwyd yn ystod cyfnod llunio fy adroddiadau a gyhoeddwyd y flwyddyn ddiwethaf. Ceir manylion am bob un yn y nodiadau sy'n dilyn.

**Enghreifftiau o Arbedion Mesuradwy Posibl**

| | Arbedion Unigol<br><br>£000 | Arbedion Blynyddol Rheolaidd Posibl<br><br>£000 | Nodyn |
|---|---|---|---|
| Trefniadau adeiladau'r Cynulliad Cenedlaethol | 350 | | a |
| Sicrhau yr incwm mwyaf oddi wrth daliadau presgripsiynau | | 15,000 | b |
| Esgeulustra clinigol | | 1,400 | c |
| Caffael yn y sector addysg bellach | | 2,500 | d |
| **CYFANSYMIAU** | **350** | **18,900** | |

a Cyfeiriodd fy adroddiad ar *Drefniadau adeiladau Cynulliad Cenedlaethol Cymru* at y ffaith y byddai'r Cynulliad yn gallu arbed tua £350,000 drwy brynu adeilad y Pierhead, yn hytrach na pharhau i'w brydlesu. Argymhellodd adroddiad y Pwyllgor Archwilio y dylai swyddogion ystyried prynu'r adeilad unwaith y sefydlir angen clir dros ei brynu yn y tymor hir, argymhelliad a dderbyniwyd gan Gabinet y Cynulliad;

b Yn fy archwiliad o *Sicrhau yr incwm mwyaf oddi wrth daliadau presgripsiynau*, canfûm y gallai fod tua £15 miliwn y flwyddyn yn cael ei golli o ganlyniad i ganiatáu rhyddhad o gostau presgripsiwn i unigolion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer rhyddhad;

c Nododd yr adroddiad ar *Esgeulustra Clinigol o fewn yr GIG yng Nghymru* fod cryn dipyn o esgeulustra yn cael ei achosi gan wallau gweinyddol, gwallau cyfathrebu a gwallau mewn systemau ehangach, yn hytrach na'r rheiny sy'n deillio o gamgymeriadau clinigol technegol, a bod costau amcangyfrifedig o tua £4.2 miliwn wedi deillio o'r fath wallau ym 1999-2000. Er enghraifft, canfu Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, mewn un achos, bod plaster ar doriad wedi cael ei dynnu oddi ar y claf ar ôl naw diwrnod yn hytrach nag ar ôl naw wythnos fel y'i bwriadwyd oherwydd bod nodiadau'r claf wedi cael eu camddarllen. Yng ngwrandawiad dilynol y Pwyllgor Archwilio, derbyniodd Cyfarwyddwr GIG Cymru bod lleihau gwallau o'r fath yn ôl traean – a oedd yn gyfystyr â thua £1.4 miliwn ym 1999-2000 – yn nod rhesymol, er y byddai'n cymryd o leiaf dwy flynedd cyn yr amlygwyd manteision unrhyw gamau a gymerwyd yn awr; a

d Roedd fy archwiliad o *Gaffael yn y sector addysg bellach* yn waith dilynol, a oedd yn canolbwyntio ar un elfen, caffael, o adroddiad blaenorol (*Addysg Bellach yng Nghymru*, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ym 1999 cyn y broses ddatganoli). Canfûm fod cyfleoedd i sicrhau lefelau uwch o arbedion, o leiaf £2.5 miliwn y flwyddyn er bod arferion caffael wedi arwain at arbedion o tua £600,000 ar draws y sector).

7. Mae hefyd yn werth nodi y gall archwiliad gwerth am arian, yn aml, gael effaith bositif sylweddol o'r fath fodd fel nad yw'n addas i'w fesur mewn termau ariannol. Gall gwelliannau mewn

ansawdd, effeithiolrwydd neu foddhad cwsmeriaid – sy'n gwneud mwy ar gyfer lefel benodol o adnoddau – fod mor bwysig â sicrhau arbedion drwy ddarboduswrydd – sef gwneud yr un peth am lai o arian. Yn ogystal, drwy fynd ati i ledaenu'r rhesymau am y gwastraff yn ehangach – i dîm rheoli'r cleientiaid neu'n gyhoeddus drwy'r Pwyllgor Archwilio – gellir atgyfnerthu'r effaith ataliol sydd gan archwiliad. Er enghraifft:

- amlygodd fy adroddiad ar *Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd* y ffaith bod Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd wedi methu ag adennill tua £40,000 yr oedd hawl ganddi i'w dderbyn wrth y Tollau Tramor a Chartref. Ni fu'n bosibl i Awdurdod Datblygu Cymru, sef y cwmni y byddai'r ddyled wedi cael ei throsglwyddo iddi pe deuai'r Gorfforaeth i ben, adennill y swm oherwydd bu'n ddyledus am gyfnod hwy na'r terfyn amser statudol o dair blynedd ar gyfer adfer arian wrth y Tollau Tramor a Chartref;

- mae fy adroddiad ar *Drefniadau adeiladau Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, ynghyd â'r adroddiad dilynol gan y Pwyllgor Archwilio, yn cynnwys nifer o argymhellion a ddylai lywio projectau mawr yn y dyfodol y bydd y Cynulliad yn ymgymryd â hwy, megis pwysigrwydd cyflawni dadansoddiad sensitifrwydd fel rhan o werthusiadau buddsoddi; ac

- roedd fy archwiliad o *Addysgu a hyfforddi gweithlu iechyd proffesiynol y dyfodol i Gymru* yn archwilio sut y gallai'r GIG wneud fwy i sicrhau ei fod yn cynnal staff proffesiynol digonol megis nyrsys, bydwragedd, ffisiotherapyddion a radiograffwyr i fodloni anghenion cleifion. Ymhlith pethau eraill, argymhellodd yr adroddiad y dylai'r GIG ddadansoddi'r rhesymau dros athreuliad myfyrwyr ymhellach, ynghyd â datblygu partneriaeth fwy effeithiol gyda'r sector addysg uwch.

8. Bydd Aelodau yn gwerthfawrogi mai fy rôl yw nodi'r cyfle am arbedion ac argymell sut y gellir eu cyflawni pan gânt eu hategu a'u datblygu gan adroddiadau'r Pwyllgor ac ymatebion y Cynulliad. Y corff archwiliedig sy'n gyfrifol am gyflawni'r arbedion hynny a hwyrach y cymerir cryn amser i gronni'r arbedion llawn. Mewn nifer o achosion ni ellir gweithredu argymhellion dros nos, a gallai gymryd hyd yn oed yn hwy i wireddu'r arbedion eu hun. Serch hynny, drwy asiantaeth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, ac fel rhan o'r drefn, ymrwymaf i ddychwelyd at gyrff archwiliedig i olrhain i ba raddau y mae'r arbedion a nodwyd wedi eu cyflawni yn dilyn hynny. Ar adegau, gall hyn arwain at adroddiad cyhoeddedig, megis yn achos *Caffael yn y sector addysg bellach*, fel y trafodwyd uchod, lle y cyflawnwyd £600,000 o arbedion. Ceir enghreifftiau eraill o arbedion a ddiogelwyd isod:

- yn dilyn gwrandawiad y Pwyllgor Archwilio ar fy adroddiad *Gwarchodd a chadw'r dreftadaeth adeiledig yng Nghymru* (Tachwedd 1999), ysgrifennodd Prif Weithredwr Cadw at y Pwyllgor ynglŷn ag effaith y newidiadau sy'n debygol o godi o argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol. Yn awr bod yr argymhellion perthnasol wedi cael eu gweithredu mae'n bosibl pennu'r arbedion a wnaed. Mae'r Prif Weithredwr wedi cadarnhau wrth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y gwireddwyd dros

£90,000 o arbedion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Deilliodd y rhan fwyaf o hyn o broses graffu fwy trylwyr wrth archwilio ceisiadau grant – drwy ddefnydd mwy o werthusiadau ariannol - a arweiniodd at y ffaith bod cyllid yn cael ei dynnu yn ôl, a allai fod wedi cael ei dalu i ymgeiswyr a oedd eisoes mewn sefyllfaoedd ariannol cadarn; ac

- Roedd yr adroddiad ar Awdurdod Datblygu Cymru (*Awdurdod datblygu Cymru: Rheoli'r broses o greu awdurdod estynedig a chwilio am arbedion yn y dyfodol* ) yn cynnwys adran ar y cyfle i'r Awdurdod sicrhau arbedion pellach ac i gynhyrchu incwm ychwanegol. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad yn cydnabod bod y ffigurau hyn yn rhai arwyddol ac y byddai angen buddsoddiad sylweddol, o ran arian parod ac amser rheoli, i sicrhau arbedion o'r fath. Roedd yr enghreifftiau o uchafswm arbedion gros amcangyfrifiedig a nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys hyd at £100,000 o'r gwaith o reoli gwagle, £27,000 o storio a £10,000 o effeithlonrwydd ynni. Ers hynny mae'r Awdurdod wedi comisiynu cyngor annibynnol arbenigol ynglŷn â sut i leihau ei gostau ynni, ac mae'n ymgymryd â phrojectau peilot i archwilio'r cyfle i sicrhau arbedion mewn meysydd eraill.

9. Mae'r dystiolaeth uchod yn cyfeirio at y dechreuad da yr wyf wedi ei wneud wrth ddiogelu arbedion ariannol ac effaith fuddiol arall. Ailadroddaf fy mhenderfyniad i ddatblygu'r ymagwedd hon ar fy ngwaith ymhellach yn y dyfodol.

## Rhaglen arfaethedig archwiliadau gwerth am arian

10. Caiff y pynciau posibl i'w harchwilio eu rhestru yn Nhabl 1 isod a cheir crynodeb byr o bob un yn Atodiad A. Mae fy rhaglen arfaethedig yn anelu at ddarparu swm ac ansawdd gwaith sydd ei angen ar y Pwyllgor er mwyn iddo ddosbarthu ei gyfrifoldebau yn effeithiol. Byddaf yn parhau i gynhyrchu adroddiadau ar ystod o bynciau mor eang â phosibl sy'n canolbwyntio ar berfformiad a chanlyniadau, i geisio nodi enghreifftiau o'r defnydd a'r rheolaeth effeithiol o adnoddau, ac i ddangos sut y gellir gwella perfformiad. Yn y dull hwn dylai fy archwiliadau ddarparu'r sylfaen i alluogi'r Pwyllgor i wneud cyfraniad sylweddol at y broses o sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael i'r Cynulliad yn cael eu defnyddio i'r eithaf, bod y canlyniadau bwriadedig yn cael eu cyflawni ac y sicrheir y gwerth gorau am arian.

11. Bwriadaf gyflawni fy ngwaith drwy ymgynghori â'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru, lle y bo'n briodol, er enghraifft ym meysydd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, llywodraeth leol a thai. Yn y maes iechyd yn arbennig, mae fy holl astudiaethau arfaethedig yn debygol o gynnwys cysylltiad â'r Comisiwn Archwilio. Rwyf hefyd wedi cymryd gofal i sicrhau bod fy rhaglen arfaethedig yn ystyried gwaith y bwriedir ei gyflawni gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Lloegr, ar ran y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Felly mae fy archwiliadau arfaethedig o glwy'r Traed a'r Genau, Rheoli risg glinigol a rheoleiddio'r broses o reoli gwastraff gan Asiantaeth yr Amgylchedd oll yn adlewyrchu astudiaethau cyfatebol yr ymgymerir â hwy ar y pynciau hynny yn Lloegr.

12. Wrth lunio fy nghynigion ar gyfer 2002-2003 a thu hwnt, rwyf wedi ystyried awgrymiadau a wnaed gan Aelodau'r Pwyllgor hydref diwethaf ond na fu'n bosibl i mi eu cynnwys yn fy rhaglen ar gyfer 2001-2002. Amlinellir y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2002-2003 a thu hwnt yn Nhabl 1 yn ôl maes cyllidebau'r Cynulliad ac mae'n gwahaniaethu rhwng yr astudiaethau hynny y cynigiaf y dylai Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru weithredu arnynt yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003 ynghyd â'r rheiny y gallai ymgymryd â hwy yn ystod 2003-2004 ac mewn blynyddoedd dilynol. Fel y nodir yn Nhabl 1, un o fy nodau wrth roi'r cynigion hyn at ei gilydd yw sicrhau, yn ystod y ddwy flynedd nesaf bod gan y Pwyllgor y cyfle i gymryd tystiolaeth ar bob categori o wariant y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt.

13. Wrth geisio sicrhau bod gwariant y Cynulliad yn cael ei gwmpasu'n systematig, rwyf wedi dadansoddi'r maes archwilio fesul categori eang yn ôl ffocws yr archwiliad mewn perthynas â'r defnydd o adnoddau. Mae Tabl 1 yn nodi ym mha gategori bras y gellir gosod pob astudiaeth arfaethedig. Yn ogystal, ystyriais bum amcan y Cynulliad, neu feysydd gweithredu, fel yr amlinellir yn ei gynllun strategol cyntaf, *Gwell Cymru*. O ganlyniad, dengys Tabl 1 brif amcanion y Cynulliad y mae fy astudiaethau arfaethedig yn gysylltiedig â hwy.

14. Yn wreiddiol, roedd un o fy archwiliadau arfaethedig ar gyfer 2002-03, ar Gymorth Dewisol Rhanbarthol, yn rhan o'm rhaglen ar gyfer y flwyddyn bresennol, 2001-02. Gohiriais y gwaith o archwilio'r pwnc hwn yn dilyn newidiadau yn fy rhaglen ar gyfer eleni. Fel yr eglurais i'r Pwyllgor yn ystod hydref y llynedd, euthum ati i ailraddoli gwaith maes wrth i mi archwilio'r gwaith o reoli'r ystad addysg bellach y llynedd. O ganlyniad i'r ailraddoli hynny, bu'n bosibl i mi ychwanegu at fy rhaglen yr adolygiad o fethdaliad Canolfan Celfyddydau Gweledol Caerdydd a oedd yn cael ei hariannu gan y loteri a'r ffaith iddi orfod cau yn sgîl y methdaliad hwnnw. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn fuan a bydd yn ffurfio sylfaen cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn hwyrach yn ystod y mis. Ac yn ogystal eleni, mewn ymateb i ganfyddiadau archwilio Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, rwyf wedi ehangu fy archwiliad o ddirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ac Ystad yr GIG i ben. Yn awr bydd y ddau archwiliad hyn yn arwain at ddau adroddiad (ystyriwyd yr adroddiad cyntaf ar ddirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben, *Sicrhau dyfodol Bae Caerdydd*, gan y Pwyllgor ar 5 Gorffennaf eleni).

**Tabl 1: Rhaglen arfaethedig archwiliadau gwerth am arian, yn ôl maes cyllidebau'r Cynulliad**

| ***Allwedd:*** | |
|---|---|
| Categorïau bras sy'n nodi **ffocws yr archwiliad**: | Pum prif **amcan** neu faes gweithredu'r Cynulliad: |
| A darparu rhaglenni a gwasanaethau | 1 cyfleoedd gwell ar gyfer dysgu |
| B rheoli asedion | 2 economi gwell a chryfach |
| C caffael asedion a gwasanaethau | 3 gwell iechyd a lles |
| D adleoli a gwaredu asedion ac adnoddau | 4 gwell ansawdd bywyd |
| | 5 llywodraeth gwell a symlach |

| ***Maes gwario*** | ***Ffocws yr archwiliad*** | ***Amcan y Cynulliad*** |
|---|---|---|
| **IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | |
| *Gwaith a gyflawnir yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002* | | |
| • Adolygiad o addysg a hyfforddiant nad yw'n feddygol (eisoes wedi'i gyhoeddi) | C | 1,3 |
| • Adolygiad o wasanaethau glanhau ysbytai | A | 3 |
| • Adolygiad o wasanaethau arlwyo mewn ysbytai | A | 3 |
| ***Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003*** | | |
| • **Absenoldeb oherwydd salwch yn yr GIG** | A | 3 |
| • **Caffael gwasanaethau** | C | 3 |
| *Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004* | | |
| • Rheolaeth clinigol : rheoli risg clinigol | A | 3 |
| • Archwiliad o'r cytundeb PFI ar gyfer ysbyty Baglan | C | 3 |
| • Mynd i'r afael â phroblem trais yn yr GIG | A | 3 |
| • Caffael cyffuriau | C | 3 |
| *Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2004-2005 a blynyddoedd dilynol* | | |
| • Diddymu awdurdodau iechyd | A,B,D | 3,5 |
| • Adolygiad o Wasanaeth Gwaed Cymru | A | 3 |
| • Amserau aros yn yr GIG | A | 3 |
| • Gweithredu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol CHD | A | 3 |
| • Gofal uniongyrchol a llawdriniaeth dydd | A | 3 |
| • Mesurau i leihau achosion o rwystro gwelyau | A,B | 3 |
| • Gwasanaethau iechyd y meddwl | A,B | 3 |
| • Adolygiad o berfformiad Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | A | 3 |

| *Maes gwario* | *Ffocws yr archwiliad* | *Amcan y Cynulliad* |
|---|---|---|
| **ADDYSG A HYFFORDDIANT** | | |
| *Gwaith a gyflawnir yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002* | | |
| • Caffael yn y sector addysg bellach yng Nghymru (eisoes wedi'i gyhoeddi) | C | 1 |
| • Rheoli'r ystad addysg bellach | B,D | 1 |
| ***Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003*** | | |
| • **Caffael yn y sector addysg uwch** | C | 1 |
| • **Rheoli ystad yn y sector addysg uwch** | B,D | 1 |
| *Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004* | | |
| • Rheoli absenoldeb yn sgîl salwch mewn addysg uwch ac ôl-16 yng Nghymru | A | 1 |
| • Gwella niferoedd sy'n cwblhau eu cyrsiau a chyflawniad myfyrwyr mewn addysg uwch ac/neu ôl-16 | A | 1 |
| *Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2004-2005 ac wedi hynny* | | |
| • Y defnydd effeithiol o grantiau ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn swydd | A | 1 |
| • Dysgu fel gyrfa yng Nghymru | A,C | 1 |
| • Ehangu'r nifer sy'n dewis astudio addysg uwch ac/neu addysg ôl-16 | A | 1 |
| • Rheoli adnoddau dynol mewn addysg uwch ac/neu addysg ôl-16 | B | 1 |
| **DATBLYGIAD ECONOMAIDD** | | |
| *Gwaith a gyflawnir yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002* | | |
| • Cymorth ar gyfer y project LG | A,D | 2 |
| • Gweinyddu cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd | A | 2,4 |
| • Gweithredu'r trefniadau olynol ar gyfer Bae Caerdydd | A | 2 |
| ***Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003*** | | |
| • **Effeithiolrwydd Cymorth Dewisol Rhanbarthol yng Nghymru** | A | 2 |
| *Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004* | | |
| • Astudiaeth ddilynol ar gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd | A | 2,4 |
| • Adolygiad o'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth | A | 2,5 |
| *Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2004-2005 ac wedi hynny* | | |
| • Cyswllt Busnes | A | 2 |
| • Archwiliad o berfformiad Awdurdod Datblygu Cymru wrth fodloni ei dargedau gweithredol | A | 2 |
| • Cronfa Cyllid Cymru i gynnal busnesau ym meysydd Amcan 1 | A | 2 |
| • Cysylltiadau addysg-busnes | A | 1,2,5 |
| • Hyrwyddo masnach | A | 2 |

| *Maes gwario* | *Ffocws yr archwiliad* | *Amcan y Cynulliad* |
|---|---|---|
| **CYNLLUNIO AMGYLCHEDDOL A THRAFNIDIAETH** | | |
| *Gwaith a gyflawnir yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002* | | |
| • Adolygiad o raglen cynnal y priffyrdd yng Nghymru | A,C | 4 |
| ***Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod 2002-2003*** | | |
| • **Rheoleiddio'r broses o reoli gwastraff gan Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru** | A | 4 |
| • **Adolygu gweithrediadau Cyngor Cefn Gwlad Cymru** | A | 4 |
| *Pynciau posibl i'w cynnwys yn ystod 2003-2003 a blynyddoedd dilynol* | | |
| • Adolygiad o effaith ymgyrchoedd diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru | A | 3,4 |
| • Ymateb i'r bygythiad o newid mewn hinsawdd | A,C | 4 |
| • Ynni adnewyddadwy | A | 4 |
| • Ansawdd traethau Cymru | A | 4 |
| • Archwiliad o weinyddiad y Grant Trafnidiaeth | A | 4 |
| **AMAETHYDDIAETH A DATBLYGIAD GWLEDIG** | | |
| ***Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003*** | | |
| • **Delio â chlwy'r traed a'r genau** | A | 2,4 |
| *Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004* | | |
| • Project Jigsaw | A | 2,5 |
| • Adolygiad o weithrediad ac effaith gychwynnol Tir Gofal | A | 4 |
| *Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2004-2005 ac wedi hynny* | | |
| • Adolygiad o Gynllun Premiwm Blynyddol Defaid | A | 2 |
| • Adolygiad o'r Cynllun Taliadau Ardaloedd Âr | A | 2 |
| • Adolygiad o Tir Mynydd | A,D | 2 |
| **LLYWODRAETH LEOL A THAI** | | |
| *Gwaith a gyflawnir yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002* | | |
| • Digartrefedd | A | 4,5 |
| • Gweinyddu grantiau adnewyddu tai | A | 4 |
| ***Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003*** | | |
| • **Cynllun effeithlonrwydd ynni cartref** | A | 4 |
| *Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004 neu wedi hynny* | | |
| • Rheoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig | A | 4,5 |
| • Bylchau tai cymdeithasol | A,B | 4 |
| • Y broses o drosglwyddo stoc tai cyngor | A,B | 5 |

| *Maes gwario* | *Ffocws yr archwiliad* | *Amcan y Cynulliad* |
|---|---|---|
| **DIWYLLIANT A CHWARAEON** | | |
| *Gwaith a gyflawnir yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002* | | |
| • Cau'r Ganolfan Celfyddydau Gweledol | B,D | 4 |
| • Rheoli'r casgliadau yn Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru | A,B | 4 |
| *Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004 neu wedi hynny* | | |
| • Project Canolfan Mileniwm Cymru | A,C | 4 |
| • Ehangu cyfleoedd mynediad i Lyfrgell Genedlaethol Cymru | A | 1,4 |
| • Cyllid refeniw'r Loteri gan Gyngor Chwaraeon Cymru | A | 4 |
| **GWEINYDDIAETH Y CYNULLIAD AC ASTUDIAETHAU TRAWS-BYNCIOL** | | |
| *Gwaith a gyflawnir yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002* | | |
| • Adolygiad o strategaeth TG a threfniadau caffael y Cynulliad | C | 5 |
| *Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004 neu wedi hynny* | | |
| • Caffael siambr ddadlau newydd y Cynulliad (gwaith dilynol) | B,C | 5 |
| • Llwyodraeth ar y we yng Nghymru | A | 5 |
| • Darparu gwasanaethau yn electronig | A | 5 |
| • Archwilio systemau rheoli perfformiad y Cynulliad | A | 5 |
| • Y ddarpariaeth o wasanaethau i bobl hyn | A | 4,5 |

15. Wrth gynllunio fy rhaglen gyffredinol ar gyfer archwiliadau gwerth am arian, cydnabyddaf y gallai fod datblygiadau sylweddol annisgwyl yn y meysydd gwariant y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt. O dan yr amgylchiadau hyn, byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad gan dynnu sylw'r Pwyllgor Archwilio i faterion o bryder penodol. Yn yr un ffordd, byddaf yn cyflwyno adroddiad ar unrhyw achosion o dwyll, lladrata, llygredd neu amhriodoldeb a allai ddod i'r amlwg. Pe bai angen cynhyrchu adroddiad nas bwriadwyd, efallai bydd angen i mi ohirio rhannau o'm rhaglen gynlluniedig am ychydig fisoedd. Y rheswm am hyn yw oherwydd yr angen i aros o fewn y dyraniad arian y mae'r Cynulliad yn ei roi i mi ar gyfer fy archwiliadau gwerth am arian, er y byddwn yn anelu at sicrhau mai prin iawn fydd unrhyw effeithiau o'r fath. Yn ychwanegol at y rhaglen waith gynlluniedig hon, byddaf hefyd yn ymateb yn gadarnhaol i bob cais am wybodaeth neu gyngor gan y Pwyllgor hyd yn oed mewn meysydd lle y mae fy hawliau mynediad yn gyfyngedig.

16. Fel rhan o'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu ar fy nghyfer fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, bydd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn monitro datblygiadau yng ngweithgareddau'r Cynulliad ac yn adolygu ei waith gwerth am arian er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i newid, blaenoriaethau newydd a phryderon newydd wrth i gwmpas yr archwiliadau ddatblygu. Yn ei dro bydd hyn yn fy ngalluogi i roi set o gynigion diwygiedig, a ddiweddarwyd i'r Pwyllgor yn

flynyddol ar gyfer yr astudiaethau i'w cynnwys yn y flaenraglen ar gyfer fy archwiliadau gwerth am arian. Bydd Swyddfa Archwilio Gyffredinol Cymru hefyd yn ategu'r astudiaethau hyn drwy fonitro mentrau yng ngweddill y Deyrnas Unedig yn agos i mi er mwyn nodi unrhyw agweddau sy'n arbennig o berthnasol i Gymru ac i'r Cynulliad.

## Cost rhaglen arfaethedig archwiliadau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol

17. Fy nhybiaeth barhaus ynglŷn â'r galw am fy ngwaith gwerth am arian a swm y gwaith yn sgîl hynny yw'r ffaith y bydd y Pwyllgor yn debygol o ystyried fy adroddiadau gwerth am arian ar saith achlysur o leiaf bob blwyddyn. Bydd lefel y cyllid yr wyf yn ei gynnig yn fy Amcangyfrif ar gyfer 2002-03, a fydd yn cael ei gyflwyno hefyd i'r Pwyllgor i'w ystyried ar 6 Tachwedd, yn fy ngalluogi i ddarparu deunydd digonol i'r Pwyllgor ar gyfer y nifer hyn o gyfarfodydd yn ogystal ag ychydig o ddeunydd ychwanegol er mwyn rhoi rhywfaint o ddewis i'r Pwyllgor ynglŷn â beth y gallai ei ystyried. Ar y lefel hon o gyllid, bydd fy rhaglen yn cynnwys cymysgedd o rai adolygiadau lefel uchel, rhai archwiliadau eang eu cwmpas a rhai ymchwiliadau mwy manwl. Byddaf yn sicrhau bod gan fy adroddiadau y cwmpas a'r dyfnder priodol i'r pwnc sy'n cael ei archwilio, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol, eu bod yn ychwanegu gwerth, ac yn helpu'r Pwyllgor i gyflawni effaith fesuradwy cyn gynted â phosibl, yn cynnwys sicrhau arbedion ariannol.

## Casgliad

18. Gwahoddir y Pwyllgor i hysbysu Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r pynciau sydd o ddiddordeb arbennig i Aelodau ac i awgrymu unrhyw bynciau eraill nad ydynt ymhlith y rheiny a restrwyd i'w cynnwys o bosibl yn y rhaglen ar gyfer 2002-2003 ac yn y dyfodol.

**John Bourn**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

*26 Hydref 2001*

# Atodiad A:  Cefndir ar bynciau posibl ar gyfer archwiliadau gwerth am arian

## Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003*

**1. Absenoldeb oherwydd salwch yn yr GIG**

Mae gwaith blaenorol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi dangos y manteision gweithredol sy'n gallu deillio o reolaeth effeithiol o absenoldeb oherwydd salwch –maes lle yr ystyriwyd, yn draddodiadol, bod y sector cyhoeddus yn perfformio'n wael. Yn yr GIG, yn ogystal â'r dylanwad uniongyrchol ar ofal cleifion sy'n gallu deillio o absenoldeb oherwydd salwch, ceir costau ychwanegol amlwg – yn sgîl yr angen fwy am nyrsys asiantaeth, er enghraifft. Cyfeiriodd adroddiad gan y Comisiwn Archwilio, *Brief encounters: getting the best from temporary nursing staff* (Medi 2001), a oedd yn edrych ar Gymru a Lloegr, at gostau sylweddol staff banc ac asiantaeth a oedd yn cyflenwi ar gyfer staff nyrsio parhaol a oedd ar gyfnod absenoldeb o ran salwch.  Mae Cynllun GIG Cymru yn datgan y bydd sefydliadau iechyd yng Nghymru yn cyflawni ac yn cynnal y Safon Iechyd Gorfforaethol – y nod ansawdd ar gyfer iechyd yn y gweithle. Caiff gwybodaeth am absenoldeb o ran salwch yn GIG Cymru ei chasglu fel rhan o'r strategaeth *Darparu ar gyfer Cleifion: Strategaeth adnoddau dynol ar gyfer NHS Cymru*. Byddai'r astudiaeth yn edrych ar gynnydd GIG Cymru wrth reoli absenoldeb oherwydd salwch a'r costau cysylltiedig.

**2. Caffael gwasanaethau**

Mae GIG Cymru yn gwneud defnydd sylweddol o ynni, dŵr a gwasanaethau telathrebu. Y gwariant ar ynni yw ei bedwaredd elfen fwyaf o ran cost, y gwarier dros hanner ohono ar drydan. Mae GIG Cymru yn defnyddio bron tair miliwn metr ciwbig o ddŵr bob blwyddyn. Defnyddia GIG Cymru system delathrebu (Rhwydwaith Digidol Cymru Gyfan) sy'n cludo data a thonnau sain, yn rhad ac am ddim i sefydliadau lleol, y mae'r holl ymddiriedolaethau yng Nghymru yn gysylltiedig â hwy. Bwriada GIG Cymru symud oddi wrth y system hon at y dechnoleg ddiweddaraf newydd a gwasanaeth rhwydwaith rheoledig a ddarperir gan British Telecommunications, o dan gontract a gaiff ei reoli gan Gyflenwadau Iechyd Cymru. Mae GIG Cymru wedi buddsoddi mewn system rheoli ynni gytundebol er mwyn lleihau costau ynni, a ddarperir hefyd drwy Gyflenwadau Iechyd Cymru. Byddai'r astudiaeth yn edrych ar gaffael un neu fwy o wasanaethau'r cyfleustodau, y broses o reoli treuliant a defnydd gan gyrff GIG, gan ganolbwyntio ar gontractau cyflenwi cyfleustodau, mesur defnyddioldeb a monitro costau.

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004*

**3. Rheolaeth clinigol: rheoli risg clinigol**

Ffocws yr archwiliad yma ydy gweithredu menter rheolaeth clinigol GIG. Mae angen ymrwymiad â gwella ansawdd yn ddi-baid, bod yn agored ac yn atebol, ac hyn oll wedi'u cefnogi gan systemau cynhwysfawr i fonitro a gwella perfformiad clinigol. Byddai'r archwiliad yn bwrw ymlaen â nifer o faterion a godwyd mewn cyn-adroddiad gan Archwilydd Cenedlaethol Cymru, ar *Esgeulustod clinigol yn y GIG yng Nghymru* (Chwefror 2001) a darganfyddod, er enghraifft, fod dim ond pump allan o bumtheg Ymddiriedolaeth , ar yr amser, wedi cyrraedd lefelau meincnodol o ufudd-dod i safonau rheoli risg gan Gronfa Risg Cymru yn 1997.

**4. Archwilio'r cytundeb PFI ar gyfer Ysbyty Baglan**

Y cynllun PFI mwyaf yng Nghymru hyd yn hyn yw darpariaeth ysbyty newydd Ysbyty Castell-nedd Port Talbot sydd werth £66 miliwn, i'w adeiladu a'i redeg gan Baglan Moor Healthcare plc ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg. Cynlluniwyd yr ysbyty i ddarparu 270 o welyau, cyfleusterau cleifion allanol ac ysbyty dydd, gofal adferol a lleddfol, ac ystod lawn o wasanaethau diagnostig. Yn ogystal, bydd gan yr ysbyty uned iechyd y meddwl. Dechreuwyd ar y gwaith adeiladu ym Mehefin 2000 a threfnir bod yr ysbyty yn derbyn ei gleifion cyntaf yn ystod Hydref 2002. Bydd yr astudiaeth arfaethedig yn archwilio pa mor gadarn fu'r Ymddiriedolaeth a'r Cynulliad wrth benderfynu bod y cytundeb PFI yn rhoi gwerth da am arian i'r trethdalwr a pha mor dda fu'r Ymddiriedolaeth a'r consortiwm adeiladu wrth reoli cam adeiladu'r project.

**5. Trais yn yr GIG yng Nghymru**

Bu'r achosion o drais yn ysbytai'r GIG yn codi mewn blynyddoedd diweddar. Yn gynnar ym 1999 ysgrifennodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru at Gadeiryddion pob Ymddiriedolaeth ac Awdurdod GIG yng Nghymru yn gofyn iddynt ystyried sut i gymryd camau i nodi a mynd i'r afael â phroblemau trais. Byddai'r astudiaeth yn archwilio effeithiolrwydd y mesurau ataliol a gymerir gan yr GIG yn erbyn achosion treisgar.

**6. Caffael cyffuriau**

Mae'r Cynulliad yn amcangyfrif bod rhyw 40 miliwn o eitemau y flwyddyn yn cael eu dosbarthu yng Nghymru. Yn 2000-01 cafwyd dros £380 miliwn o wariant gros ar gyffuriau ac offer rhagnodedig. Yn ddiweddar ystyriodd Grŵp Rhagnodi Gorchwyl a Gorffen y Cynulliad ffyrdd o wella ansawdd caffael fferyllol yng Nghymru ynghyd â lleihau ei gost. Byddai'r astudiaeth yn edrych ar gost effeithiolrwydd y gwariant ar brynu cyffuriau, yn enwedig y cyfle i sicrhau arbedion ariannol o fewn trefniadau caffael.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2004-2005 ac mewn blynyddoedd dilynol*

**7. Diddymu awdurdodau iechyd**

Mae Cynllun GIG Cymru, a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym Mawrth 2001, yn cynnwys y cynnig i ddiddymu'r pum awdurdod iechyd yng Nghymru erbyn Ebrill 2003. Mae'r Cynulliad yn rhagweld y bydd yn mabwysiadu mwy o rôl strategol yn genedlaethol tra bydd yn cryfhau'r 22 grŵp iechyd lleol er mwyn eu datblygu'n fyrddau iechyd lleol, gyda chyfrifoldeb dros gomisiynu, diogelu a darparu gofal iechyd yn eu hardaloedd. Trosglwyddir holl swyddogaethau'r awdurdodau iechyd, fel y bo'n briodol, i'r Cynulliad, ymddiriedolaethau GIG neu fyrddau iechyd lleol. Cynhelir cynllun peilot ar gyfer y trefniadau newydd yn 2002-03, pan fydd ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys a'r grŵp iechyd lleol dros Bowys yn cael eu diddymu er mwyn sefydlu bwrdd iechyd lleol arloesol. Byddai'r astudiaeth yn archwilio trefniadau dirwyn a throsglwyddo'r holl awdurdodau iechyd ynghyd ag asesu'r gwerth am arian a gyflawnir drwy ailstrwythuro.

**8. Gwasanaeth Gwaed Cymru**

Gyda gwariant o ryw £12 miliwn y flwyddyn, Gwasanaeth Gwaed Cymru yw'r casglwr a'r darparwr gwaed monopoli statudol yng Nghymru (ac eithrio Gogledd Cymru sy'n derbyn ei waed wrth yr Awdurdod Gwaed Cenedlaethol, y corff sy'n casglu ac yn darparu gwaed yn Lloegr). Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar p'un a yw Gwasanaeth Gwaed Cymru yn bodloni galwadau ysbytai a pha fesurau mae'n eu cymryd i wella ei berfformiad.

**9. Amserau aros yn yr GIG**

Ym Mehefin 2000 gorchmynnodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad i leihau rhestrau aros cleifion mewnol o tua 80,000 i 65,000 (19 y cant) ac i leihau rhestrau aros cleifion allanol o 180,000 i 90,000 (50 y cant). Dyrannodd y Cynulliad £40 miliwn i gynorthwyo hyn. Ym Medi 2000 lansiwyd *Amserau aros yng Nghymru: strategaeth ar gyfer y dyfodol,* yn amlinellu mesurau i wella'r gwaith o reoli apwyntiadau cleifion mewnol ac allanol, cynyddu capasiti a lleihau nifer y bobl sy'n aros dros 12 mis am driniaeth. Erbyn Gorffennaf 2001, fodd bynnag, roedd apwyntiadau cleifion allanol wedi codi o 180,000 i 195,000 (wyth y cant). Ar yr un dyddiad roedd tua 67,000 o bobl yn aros am apwyntiad cleifion mewnol, yn agos i'r lefel targed. Byddai'r astudiaeth yn dilyn o archwiliad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn Lloegr, *Department of Health: inpatient and outpatient waiting in the GIG* (Gorffennaf 2001). Byddai'n amlygu arfer da o ran mesurau i leihau amserau aros ac yn edrych ar systemau ac arferion cofnodi rhestrau aros yng Nghymru.

**10. Gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer clefyd y galon**

Safonau ar gyfer gofal iechyd yw'r Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol a bennir gan y Cynulliad ac a ategir gan arweiniad clinigol wrth y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol. Mae'r Comisiwn

Gwella Iechyd yn monitro eu gweithrediad. Bydd angen i ofal clefyd y galon fodloni targedau a nodir yng nghynllun gweithredu'r Fframwaith Rheoli Cenedlaethol erbyn 2004-05. Byddai'r astudiaeth yn asesu argaeledd gwasanaethau ar gyfer clefyd y galon a'r gwaith o weithredu'r fframweithiau ledled Cymru.

## 11. Gofal uniongyrchol a llawdriniaeth dydd

Mae nifer y bobl sy'n derbyn triniaeth fel achosion dydd mewn ysbytai yng Nghymru wedi codi o tua 100,000 ym 1990 i tua 350,000 yn 2000. Ym 1990, cyhoeddodd y Comisiwn Archwilio restr o 20 gweithdrefn a fyddai'n cynnig y gwerth gorau am arian pe caent eu cyflawni fel achosion dydd, ond canfu arolwg diweddar na fu ysbytai yn gwneud defnydd digonol o lawdriniaeth dydd (Cylchgrawn y Gwasanaethau Iechyd, 10 Mai 2001). Mae'n debyg bod cyfradd yr achosion o lawdriniaeth dydd yn anghyson ledled Cymru. Nododd dogfen *Amserau Aros yng Nghymru : strategaeth ar gyfer y dyfodol* (Medi 2000) y dylid ehangu llawdriniaeth dydd a llawdriniaeth arhosiad byr a dylid datblygu mwy o Unedau Gofal Uniongyrchol (e.e. yn Ysbyty Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd) i roi lle i gleifion sy'n dymuno aros am un noson yn unig. Byddai'r astudiaeth yn ystyried yr amrywiaeth mewn triniaeth achosion dydd ledled Cymru ac yn archwilio'r potensial am ehangu pellach.

## 12. Mesurau i leihau achosion o rwystro gwelyau

Canfu'r Ymchwiliad Gwelyau Cenedlaethol yn Lloegr bod pobl hyn yn defnyddio dau o bob tri gwely cyffredinol a gwelyau dwys a phe bai cyfleusterau eraill wedi bod ar waith byddai o leiaf 20 y cant o'r diwrnodau gwely hyn wedi bod yn amhriodol. Awgryma'r dystiolaeth hwyrach bod yr henoed yn cael eu cadw mewn gwelyau ysbytai ledled Cymru oherwydd nad oes digon o leoedd mewn cartrefi preswyl neu gartrefi gofal nyrsio. Nododd dogfen *Amserau aros yng Nghymru: strategaeth ar gyfer y dyfodol* (Medi 200) y dylid ehangu gwasanaethau gofal canolradd gyda'r GIG, llywodraeth leol a sectorau preifat neu wirfoddol gan ganolbwyntio ar gynnal neu gadw annibyniaeth ac adferiad. Byddai'r astudiaeth yn asesu graddau a chost prinder gwelyau yn GIG Cymru a'r cynnydd a wnaed i sicrhau bod gwelyau yn cael eu defnyddio'n briodol a bod opsiynau eraill ar gael.

## 13. Gwasanaethau iechyd meddwl

Yn ystod 1999-2000, gwariodd awdurdodau iechyd yng Nghymru dros £200 miliwn ar wasanaethau iechyd meddwl. Lansiodd Strategaeth Salwch Meddwl 1989 i Gymru y polisi o ofal cymunedol sydd wedi arwain at gau pum ysbyty seiciatrig fawr a bwriedir cau dwy arall hefyd. Ceir pryder nad yw'r lleihad yn nifer y gwelyau ysbyty wedi'i gyfateb â darpariaeth ddigonol o ansawdd rhesymol yn yr ysbytai neu'r unedau eraill ac yn y gymuned oherwydd eu bod wedi gostwng o 4,500 ym 1987 i 2,500 ym 1999-2000. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ar gyfer strategaeth iechyd meddwl newydd yn Nhachwedd 2000 a chyhoeddwyd y strategaeth derfynol ym Medi 2001. Bwriedir cyhoeddi Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer iechyd meddwl yn ystod 2001 hefyd. Byddai'r astudiaeth yn edrych ar y broses o gau'r ysbytai mawr a gwerthuso ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael yn sector yr ysbytai ledled Cymru.

## 14. Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Ffurfiwyd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar 1 Ebrill 1998 pan unwyd y pedair ymddiriedolaeth ambiwlans blaenorol yng Nghymru. Yn 2000-01, £66 miliwn oedd incwm yr Ymddiriedolaeth a £66 miliwn oedd cyfanswm ei gwariant. Cyflogai 2000 o staff ac roedd ganddi asedion sefydlog a oedd werth tua £27 miliwn. Bydd yr astudiaeth yn adolygu perfformiad yr Ymddiriedolaeth.

## Addysg a Hyfforddiant

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2003*

**1. Caffael yn y sector addysg uwch yng Nghymru**

Gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddatblygwyd ar gyfer y sector addysg bellach, byddai'r astudiaeth hon yn asesu i ba raddau y mae sefydliadau yn y sector addysg uwch yng Nghymru yn dilyn arfer caffael da.

**2. Rheoli Ystadau yn y sector addysg uwch yng Nghymru**

Ym 1996, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiad ar *Management of Space in Higher Education Institutions in Wales*. Cyfeiriodd yr adroddiad hwn at y cyfle sylweddol a oedd gan sefydliadau i wella'r defnydd o'u hystadau drwy gymhwyso technegau rheoli lle mwy effeithiol. Bydd yr astudiaeth yn dilyn canfyddiadau'r adroddiad cynharach hwn er mwyn gweld pa gynnydd a wnaed gan sefydliadau addysg uwch i wneud gwell defnydd o'u lleoedd presennol, ac felly i ddiogelu'r manteision posibl i'r sector. Bydd hefyd yn edrych ar faterion ehangach rheoli ystadau, yn debyg i archwiliad cyfredol Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o'r broses o reoli ystadau yn y sector addysg bellach.

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004*

**3. Rheoli absenoldeb o ran salwch mewn addysg uwch ac addysg ôl-16 yng Nghymru**

Mae gwaith blaenorol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi amlygu'r manteision gweithredol sy'n gallu deillio o reoli absenoldeb o ran salwch yn effeithiol – maes lle yr ystyriwyd, yn draddodiadol, bod y sector cyhoeddus yn perfformio'n wael. Byddai'r astudiaeth hon yn dilyn astudiaeth debyg a ragwelir ar gyfer 2002-03 yn yr GIG yng Nghymru.

**4. Dysgu fel gyrfa yng Nghymru**

Mae Is-adran Dysgu ac Arweinyddiaeth y Cynulliad, mewn partneriaeth gyda'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach wedi bod yn ceisio nodi a chynnal mentrau a gynlluniwyd i hybu dysgu fel gyrfa yng Nghymru. Mae'r Asiantaeth Hyfforddi Athrawon yn gyfrifol am recriwtio a hyfforddi athrawon yng Nghymru, o dan gontract i'r Cynulliad. Mae Cyngor Dysgu Cyffredinol Cymru, a ddaeth i rym ar 1 Medi 2000, yn gyfrifol am ddarparu cyngor ar y gwaith o recriwtio, cadw a chyflenwi athrawon. Mae'r sefyllfa recriwtio athrawon yn fwy difrifol yn Lloegr nag yng Nghymru a cheir rhywfaint o dystiolaeth bod athrawon sydd newydd eu hyfforddi yn cael eu denu i Loegr. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar lwyddiant y trefniadau a'r mentrau yng Nghymru i hyrwyddo dysgu fel gyrfa ac i gadw athrawon yng Nghymru.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2004-2005 ac mewn blynyddoedd dilynol*

### 5. Y defnydd effeithiol o grantiau ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn swydd (GEST)

£59 miliwn yw cyfanswm cyllideb blynyddol y grantiau hyn ar gyfer 2001-2002, y mae tua 60 y cant ohono ar ffurf cymorth grant gan y Cynulliad. Caiff y cynllun ei weinyddu ar gyfer ysgolion gan awdurdodau addysg lleol, ac mae'n gweithredu meysydd gweithgaredd i blant o dan ddeg oed gyda meysydd cyllideb ar wahân ac yn adlewyrchu blaenoriaethau addysgol y Cynulliad. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys cymorth wedi'i dargedu ar gyfer llythrennedd, rhifedd ac anghenion addysgol arbennig. Bwriedir i'r grantiau ddarparu hyfforddiant a chymorth effeithiol er mwyn cyflawni canlyniadau addysgol gwell. Bydd yr astudiaeth yn archwilio i ba raddau y mae'r grantiau yn cyflawni amcanion bwriadedig y cynllun.

### 6. Gwella niferoedd sy'n cwblhau eu cyrsiau a chyflawniad myfyrwyr mewn addysg uwch ac/neu ôl-16

Bydd yr astudiaeth yn archwilio'r camau a gymerir i wella cyfraddau cwblhau a chyflawni myfyrwyr yng Nghymru, yn y sectorau addysg ôl-16 ac/neu addysg uwch. Mae'r rhesymau dros y cyfraddau cwblhau a chyflawni gwael yn dra hysbys. Fodd bynnag, mae gwella cyfraddau cwblhau a chyflawni myfyrwyr, serch hynny, yn her ar gyfer y sefydliadau dan sylw ac ar gyfer eu cynghorau ariannu (Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant a'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch – a elwir ar y cyd yn ELWA, Dysgu ac Addysgu Cymru). Pennwyd targedau perfformiad a dangosyddion perfformiad amrywiol ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Mae gwybodaeth perfformiad i Gymru yn nodi bod cyfraddau cwblhau yn gwella ar gyfer y sector addysg ôl-16 ond nid yw'r cyfraddau cyflawni wedi gwella, tra bod y cyfraddau cwblhau yn gwaethygu ar gyfer myfyrwyr ifanc a myfyrwyr hyn yn y sector addysg uwch.

### 7. Ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch ac/neu addysg ôl-16

Bydd yr astudiaeth yn archwilio'r camau a gymerwyd i ehangu cyfranogiad yn y sectorau addysg uwch ac/neu addysg ôl-16 yng Nghymru. Mae'n ofynnol i'r cynghorau ariannu priodol (Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant Cymru a'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch - a elwir ar y cyd yn ELWA, Dysgu ac Addysgu Cymru) wneud ymdrechion i gynyddu ac ehangu cyfranogiad, er budd cynhwysedd cymdeithasol. Mae cynllun strategol y Cynulliad *Gwell Cymru* yn anelu at sicrhau bod 36,000 o fyfyrwyr ychwanegol yn y sectorau addysg uwch ac addysg ôl-16 yng Nghymru erbyn 2003. Mae cynlluniau hepgor ffioedd ac ariannu mynediad ar waith i gynyddu ac ehangu cyfranogiad, ac mae'r Cynulliad wedi cynyddu'r ddarpariaeth ariannol sydd ar gael ar gyfer cronfeydd mynediad a chaledi ar gyfer 2001 i dros £11 miliwn. Yn erbyn y cefndir o batrymau a rhwystrau cyfredol i gyfranogiad, bydd yr astudiaeth yn edrych ar effeithiolrwydd y mentrau i ehangu cyfranogiad gan amlygu arfer da. Bydd yn

canolbwyntio ar y gwaith o dargedu mesurau i grwpiau cymdeithasol ac economaidd arbennig ac ar y dull cydlynol o weithredu mentrau a anelir at ddarparwyr addysg a myfyrwyr.

### 8. Rheoli adnoddau dynol yn y sectorau addysg uwch ac/neu addysg ôl-16

Bydd yr archwiliad hwn yn edrych ar gynnydd o fewn y sectorau addysg uwch ac/neu addysg ôl-16 drwy gyflwyno a gweithredu rhaglenni strwythuredig o ran cymorth a datblygiad staff, yn cynnwys mesurau a mentrau cyfle cyfartal. Bydd yn amlinellu'r fframweithiau rheoli adnoddau dynol a hyrwyddwyd ac a gymeradwywyd gan y cynghorau ariannu priodol (Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru a'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch – a elwir ar y cyd yn ELWA, Dysgu ac Addysgu Cymru) ond bydd yn canolbwyntio ar gamau a gymerir gan sefydliadau addysg unigol. Yn erbyn y cefndir o batrymau a phroffiliau cyflogaeth cyfredol yn y sefydliadau addysg perthnasol, bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar gadernid strategaethau adnoddau dynol ac ar effeithiolrwydd mesurau a mentrau penodol ar ddatblygiad staff, gan amlygu enghreifftiau o arfer da.

## Datblygiad Economaidd

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003*

### 1. Effeithiolrwydd Cymorth Dewisol Rhanbarthol yng Nghymru

Cymorth Dewisol Rhanbarthol yw'r prif ddull o gymorth ariannol sector preifat sydd ar gael i ddiwydiant er mwyn cwmpasu buddsoddiad a thwf yng Nghymru. Telir grantiau i gwmpasu rhan o gost projectau cyfalaf sy'n cynhyrchu swyddi mewn ardaloedd cynorthwyedig a chânt eu cyfyngu i'r swm sy'n ofynnol er mwyn datblygu'r projectau. Mae grantiau ar gael hefyd yn arbennig er mwyn cynorthwyo'r gwaith o greu swyddi. Mae Cymorth Dewisol Rhanbarthol hefyd yn rhwym wrth uchafsymiau cymorth dwys a bennir gan y Comisiwn Ewropeaidd. £45 miliwn oedd cost y cynllun ym 1999-2000 a thalwyd £36 miliwn yn 2000-01. Tua £45 miliwn yw cyllideb 2001-2002. Ailstrwythurwyd y cynllun yng Ngorffennaf 2000 a chadarnhawyd ardaloedd cynorthwyedig newydd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Weithiau telir Cymorth Dewisol Rhanbarthol ar y cyd â chymorth gan gyrff sector cyhoeddus eraill megis Awdurdod Datblygu Cymru. Byddai'r astudiaeth felly yn cwmpasu rôl Cymorth Dewisol Rhanbarthol yng nghyd-destun ehangach cymorth busnes a datblygiad economaidd yng Nghymru. Gallai hefyd ystyried materion o ddiddordeb penodol, er enghraifft yr effaith ar y meysydd blaenoriaeth (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd), buddsoddiad mewnol a busnesau bach.

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004*

**Astudiaeth ddilynol o gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd**

Nod yr astudiaeth hon fyddai ystyried a oedd tîm rheoli'r rhaglen wedi ystyried yr astudiaeth y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei chynnal eleni.

**Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth**

Mae gan fusnesau yng Nghymru gyfraddau cychwyn a thwf is na'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig ac maent yn canolbwyntio'n fwy ar farchnadoedd lleol. Y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth yw strategaeth drosfwaol y Cynulliad ar gyfer mynd i'r afael â'r problemau hyn a helpu i sicrhau bod Cymru ymhlith y gwledydd mwyaf entrepreneuraidd yn Ewrop. Wedi'i fabwysiadu yn Ebrill 2000, mae'n ddull o gynorthwyo'r gwaith o greu busnesau a chynorthwyo twf busnesau yng Nghymru. Arweiniodd Awdurdod Datblygu Cymru y gwaith o ddatblygu'r cynllun ac mae'n darparu cymorth i Grŵp Llywio'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth, sy'n cynnwys aelodau o'r sector preifat, y sector addysg, llywodraeth leol, busnes, Awdurdod Datblygu Cymru a'r Cynulliad. Byddai'r astudiaeth yn edrych ar gynnydd y cynllun o ran ei weithrediad a pha mor effeithiol y mae'n bodloni ei amcanion. Mae Cyswllt Busnes a Chyllid Cymru yn elfennau allweddol o'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth ac maent yn destun cynigion astudiaeth ar wahân.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2004-2005 neu mewn blwyddyn ddilynol*

**4. Effeithiolrwydd y gwasanaeth Cyswllt Busnes**

Gwasanaeth ffôn a Rhyngrwyd yw Cyswllt Busnes sy'n darparu pwynt mynediad i fusnesau i'r ystod lawn o wasanaethau cynnal busnesau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yr amcan yw darparu cyngor a gwybodaeth busnes gwrthrychol, arbenigol i ddefnyddwyr ar y gwasanaethau sydd ar gael, ac os y bo'n briodol, eu cyfeirio at ffynonellau cymorth arbenigol. Caiff y gwasanaeth ei reoli gan Gyswllt Busnes Cymru Cyf., a fydd yn derbyn £4 miliwn wrth y Cynulliad yn 2001-02. Mae'r cwmni yn derbyn cymorth gweithredol gan Awdurdod Datblygu Cymru ac mae'n contractio gyda phedwar consortiwm rhanbarthol i ddarparu cyngor a chymorth i alwyr busnes. Yn ddiweddar cwblhaodd y Cynulliad adolygiad llawn o wasanaethau busnes, yn cynnwys Cyswllt Busnes, a bydd Awdurdod Datblygu Cymru yn dechrau gweithredu argymhellion yr adolygiad o Ebrill 2002. Byddai'r astudiaeth yn archwilio pa mor effeithiol yw'r rhaglen wrth wireddu ei hamcanion yng nghyd-destun gwasanaethau cynnal ehangach a ddarperir i fusnesau yng Nghymru.

**5. Perfformiad Awdurdod Datblygu Cymru wrth gyflawni targedau**

Bydd yr astudiaeth hon yn dilyn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd ym Mai 2000 ynglŷn ag ehangu Awdurdod Datblygu Cymru. Cynhaliwyd adolygiad pum mlynedd o'r Awdurdod yn ystod 2000-2001. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar berfformiad yr Awdurdod, yn enwedig i ba raddau y cyflawnodd ei dargedau gweithredol.

**6. Cronfa Cyllid Cymru i gynnal busnesau yn ardaloedd Amcan 1**

Cynllun newydd yw hwn a fydd yn darparu cyfalaf benthyg ac ecwiti i fusnesau bach a chanolig eu maint yn ardaloedd Amcan 1. Y nod yw helpu busnesau a allai fod yn ddichonol ond na allant sicrhau digon o gyfalaf yn y sector preifat oherwydd eu maint, eu proffil risg neu eu diffyg profiad o ran rheoli. Bydd y cynllun yn cael ei weinyddu gan Gyllid Cymru Cyf., is-gwmni sy'n rhan o Awdurdod Datblygu Cymru, a bydd yn cael ei ariannu ar y cyd gan y sector preifat (55 y cant) a chyllid Amcan 1 wrth yt Undeb Ewropeaidd (45 y cant). Mae'r cynnig cyfredol yn gofyn am gyfres o gronfeydd ag iddynt gyfanswm o £45 miliwn, a fydd yn hunan-ariannol. Disgwylir i'r Comisiwn Ewropeaidd gymeradwyo'r cynllun yn Hydref 2001. Byddai'r astudiaeth yn archwilio gweithrediad y cynllun, ei berfformiad ariannol ac i ba raddau y cyflawnodd ei amcanion.

**7. Cysylltiadau addysg-bunses**

Mae'r Cynulliad, y Cyngor Cyllido Addysg Uwch ac Awdurdod Datblygu Cymru yn noddi sawl rhaglen i gysylltu ysgolion a cholegau (yn enwedig sefydliadau addysg uwch) gyda busnesau, er cydfuddiant – er enghraifft drwy gynlluniau lleoliadau i raddedigion a chanolfannau rhagoriaeth. Yn aml mae gan y rhaglenni hyn y potensial i gyflawni newid buddiannol mawr am gost ariannol gweddol fach. Byddai'r

astudiaeth yn archwilio pa mor dda y mae mentrau a phrojectau arbennig yn cyflawni eu hamcanion a'u heffeithiau bwriadedig, ac i ba raddau y ceir cyfle i gyfeirio a chydlynu eu gweithrediadau a'u hamcanion mewn dull strategol ymhellach.

## 8. Hyrwyddo masnach

Mae Masnach Cymru Ryngwladol yn rhan o'r Cynulliad ac mae'n gyfrifol am hyrwyddo masnach rhynywladol, gwella ymwybyddiaeth am gyfleoedd masnach, ymysg cwmioedd Cymreig a'u cynorthwyo hwy i ddatblygu y sgiliau hanfodol. Mae'n bwridau cryfhau ei bresenoldeb tramor wrth gyd-weithio gyda Awdurdod Datblygu Cymru. Byddai'r astudiaeth yn archwilio pa mor effeithiol yw gweithgareddau hyrwyddo y Cynulliad, ei holl swyddfeydd rhyngwladol a'i gynrychiolwyr.

## Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003*

### 1. Rheoleiddio'r broses o rheoli gwastraff gan Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gorff yng Nghymru a Lloegr a gaiff ei noddi ar y cyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Cynulliad. Mae cyfrifoldebau'r Asiantaeth yn cynnwys rheoleiddio ac atgyfnerthu'r broses o drin, storio, symud a gwaredu gwastraff sy'n debygol o achosi llygredd, a gwarchod a gwella'r amgylchedd dŵr. Cynllunnir mai tua £14 miliwn fydd cyllid y Cynulliad ar gyfer gweithgareddau'r Asiantaeth yng Nghymru yn 2002-2003. Mae'r Asiantaeth yn derbyn incwm arall yng Nghymru drwy gyfrwng ei ddirwyon a'i weithgareddau trwyddedu. Ar hyn o bryd, mae'r Asiantaeth yn cymryd rhan mewn Adolygiad o Reolaeth Ariannol a Pholisïau llawn a gynhelir bob pum mlynedd, i'w gwblhau yn 2001, ac mae ei gweithrediadau rheoli gwastraff yn Lloegr yn destun astudiaeth bresennol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae gan Gymru hanes gwael o ran reoli gwastraff ac ailgylchu o'i gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig. Byddai'r archwiliad arfaethedig yn edrych ar y ffordd y mae'r Asiantaeth yn cyflawni ei chyfrifoldebau rheolaidd o ran rheoli gwastraff yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar y gwaith o dargedu gweithgareddau trwyddedu, archwilio a gorfodi'r Asiantaeth, ac asesu ei heffeithiolrwydd wrth atal llygredd a niwed i iechyd y cyhoedd.

### 2. Adolygiad o weithrediadau Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Y Cyngor yw'r cynghorydd statudol ar bob mater sy'n ymwneud â gwarchod byd natur a chefn gwlad. Yn ystod 2001-02 bydd yn derbyn £39 miliwn o gymorth grant gan y Cynulliad. Roedd y Cyngor yn destun adolygiad pum mlynedd yn 2000-2001 (y mae'r adroddiad terfynol yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd). Mae'r Cyngor yn anelu at fodloni cyfres o dargedau ar gyfer ei waith. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar berfformiad y Cyngor ac i ba raddau y cyflawnodd ei dargedau.

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod 2003-2004*

### 3. Diogelwch y ffordd

Amcan y gwariant ar ddiogelwch y ffordd yng Nghymru yw ceisio sicrhau gostyngiad o draean mewn damweiniau ar y ffyrdd erbyn y flwyddyn 2000, yn seiliedig ar lefel y damweiniau ar gyfartaledd dros y cyfnod 1981 i 1985. Ym 1997, roedd nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol o ganlyniad i ddamweiniau ar y ffyrdd yng Nghymru, yn 50.6 y cant yn is na gwaelodlin 1981-85. Mae strategaethau a chynlluniau newydd yn cael eu datblygu ar gyfer diogelwch ar y ffordd yng Nghymru a bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar eu gweithrediad a'u heffaith gychwynnol.

## 4. Ymateb i'r bygythiad o newid yn yr hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn fater cymhleth sydd ag iddo oblygiadau polisi a gweinyddol ar draws sawl maes, yn cynnwys yr amgylchedd, trafnidiaeth a datblygiad economaidd. Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i chwarae rhan yn y gwaith o ddatblygu a darparu rhaglen newid yn yr hinsawdd sy'n bodloni targed rhyngwladol Kyoto ac sy'n symud y Deyrnas Unedig fel cyfanrwydd tuag at ei nod domestig, sef gostyngiad o 20 y cant mewn gollyngiadau carbon deuocsid erbyn 2010. Yn erbyn y cefndir hwn byddai'r astudiaeth arfaethedig yn edrych ar ba mor dda yr oedd y Cynulliad a'i gyrff noddedig yn ymateb i'r bygythiad o newid yn yr hinsawdd, gan ganolbwyntio ar un neu ddau o feysydd penodol megis dulliau amddiffyn rhag llifogydd a lleihau llygredd.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2004-2005 ac mewn blynyddoedd dilynol*

## 5. Ynni adnewyddadwy

Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i'r gwaith o gyfrannu at nod y Deyrnas Unedig, sef sicrhau 20 y cant o ostyngiad mewn gollyngiadau carbon deuocsid erbyn 2010. Mae gan Cymru gryn botensial i gynhyrchu ynni adnewyddadwy i helpu i gyrraedd y targed hwn. Yn ogystal â manteision amgylcheddol, byddai datblygiad y sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn cyfrannu at seilwaith ynni gwell yng Nghymru wledig ac at greu swyddi. Mae tystiolaeth yn awgrymu, er bod y potensial ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn uchel, mae'r potensial ar gyfer datblygu'r dechnoleg berthnasol yn isel. Byddai'r astudiaeth yn archwilio i ba raddau y mae rhaglenni'r Cynulliad yn ffafrio'r gwaith o hyrwyddo ynni adnewyddadwy (o ffynonellau gwynt, tonnau, dŵr a haul) dros ynni na ellir ei adnewyddu ( o olew, nwy naturiol, glo a phŵer niwclear). Byddai'n canolbwyntio ar y camau a gymerir yng Nghymru i gynnal datblygiad y gwaith o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac i hyrwyddo'r defnydd o ynni adnewyddadwy.

## 6. Ansawdd traethau Cymru

Mae ansawdd traethau Cymru yn allweddol i ddatblygiad diwydiant mwyaf Cymru – twristiaeth. Mae'r Cynulliad wedi nodi 75 o draethau y mae'n ofynnol iddynt fodloni safonau ansawdd dŵr y Comisiwn Ewropeaidd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru, drwy ei phwerau rheoli llygredd, yn monitro'r gwaith o gyflawni safonau ansawdd dŵr Ewropeaidd. Bodlonodd bob un o'r traethau hyn heblaw am un safonau gorfodol Ewropeaidd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, sy'n cymharu'n dda â gweddill y Deyrnas Unedig. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoli traethau, yn cynnwys materion sbwriel a diogelwch. Yng Nghymru , caiff 114 o draethau eraill eu samplo'n wirfoddol gan awdurdodau lleol er mwyn archwilio eu hansawdd a chânt eu cymharu â safonau Ewropeaidd gan Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru. Mae gollyngiadau gan y cwmni dŵr sector preifat yng Nghymru, Dŵr Cymru ymhlith y nifer o elfennau sy'n dylanwadu ar ansawdd dŵr. Mae Dŵr Cymru (a reoleiddir gan OFWAT) yn gyfrifol am y gollyngiadau carthion yng Nghymru, a hwy sydd hefyd yn gyfrifol am gwrdd â chostau'r broses, ac ar hyn o bryd mae'n ymgymryd â rhaglen amgylcheddol bum mlynedd i wella ansawdd y

dyfroedd arfordirol. Fodd bynnag, ceir llawer o ffynonellau eraill o lygredd yn nyfroedd arfordirol Cymru. Mae'r Cynulliad yn ariannu Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru i gyflawni gwaith ymchwiliadol ar ansawdd a llygredd dŵr. Byddai'r astudiaeth yn archwilio pa mor effeithiol yw gwariant y Cynulliad ar fesurau i wella ansawdd traethau yng Nghymru.

## 7. Gweinyddu'r Grant Trafnidiaeth

Y Grant Trafnidiaeth yw'r brif ffynhonnell grant cyfalaf ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth mawr yr awdurdodau lleol. Yn 2001-2002 bydd grantiau gwerth £46 miliwn yn cael eu cynnal. Mae grantiau yn darparu cymorth i gynlluniau'r ffyrdd sy'n costio fwy na £5 miliwn, ar gyfer pecynnau trafnidiaeth integredig – yn cynnwys y rheiny sy'n ymwneud â rheilffyrdd – sy'n costio dros £1 miliwn ac ar gyfer mentrau llwybrau diogel i ysgolion. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar y gwaith o reoli a gweinyddu'r cynllun.

## Amaethyddiaeth a Datblygiad Gwledig

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003*

### 1. Delio ag achosion o glwy'r traed a'r genau yng Nghymru

Bydd yr astudiaeth hon yn archwilio'r gwaith o ddelio ag achosion o glwy'r traed a'r genau yng Nghymru, ar y cyd ag archwiliad arall a gynhelir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn Lloegr. Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith o ddelio ag achosion o'r clwy yn rhwym i benderfyniadau a chamau gweithredu ledled y Deyrnas Unedig, neu roedd y camau yng Nghymru yn adlewyrchu'r rheini yn Lloegr. Byddai'r adroddiad yn canolbwyntio ar y camau a gymerwyd yng Nghymru, yn asesu eu heffeithiolrwydd, yn arfarnu eu costau ac yn nodi'r gwersi a ddysgwyd.

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003-2004*

### 2. Project Jigsaw

Rhaglen dair blynedd gwerth £16 miliwn a lansiwyd yn Ebrill 1999 yw Cydfenter Gwasanaethau'r Llywodraeth ar draws Cymru (Jigsaw), a anelir at wella'r gwaith o weinyddu CAP yng Nghymru, gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau a lleihau costau cynnal. Ei nod yw uno gwasanaethau'r llywodraeth yng nghefn gwlad Cymru o dan y rhwydwaith o swyddfeydd lleol hygyrch presennol, gan ddarparu gwasanaeth siop un cam effeithiol i ffermwyr ac i eraill mewn ardaloedd gwledig. Bydd yr astudiaeth yn archwilio pa mor effeithiol yw'r project hwn, sy'n sylfaen bwysig ar gyfer gweithredu cynlluniau eraill.

### 3. Tir Gofal

Amcan Tir Gofal, a ddechreuwyd yn ystod blwyddyn ariannol 1999-2000, yw annog arferion amaethyddol a fydd yn helpu i ddiogelu a gwella tirwedd a bywyd gwyllt cefn gwlad yng Nghymru. Mae hefyd yn ceisio creu cyfleoedd pellach i bobl fwynhau cefn gwlad Cymru. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gweinyddu Tir Gofal mewn partneriaeth â'r Asiantaeth Ffermio a Gwarchodaeth Wledig ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. £10.8 miliwn yw'r gyllideb ar gyfer y cynllun yn 2001-02. Un o dargedau'r Cyngor yw cyflawni lleiafswm o 600 o gytundebau Tir Gofal o'r rownd gyntaf o geisiadau. Bydd yr astudiaeth yn adolygu'r gwaith o weithredu Tir Gofal a'i effaith gychwynnol.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2004-2005 ac mewn blynyddoedd dilynol*

### 4. Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid

Diben y cynllun premiwm blynyddol defaid yw talu iawndal i gynhyrchwyr am y graddau y bydd cyfartaledd prisiau am gig oen yn gostwng yn is na'r pris sylfaenol a bennir gan yr Undeb Ewropeaidd. Bydd taliadau mewn perthynas â'r cynllun hwn yn agos i £70 miliwn yn 2001-02. Caiff y cynllun ei

ariannu'n llawn gan y Comisiwn Ewropeaidd, ond gall methiant i gydymffurfio â rheoliadau ac arweiniad ar reolaeth ariannol gadarn arwain at ostyngiad yn ad-daliad y Comisiwn; ym 1993-96, £29.2 miliwn oedd cyfanswm y gwrthodiad hwn, mwy na Lloegr neu'r Alban a thua 5.8 y cant o daliadau. Byddai'r astudiaeth hon yn adeiladu ar adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2000 a oedd yn ystyried ansawdd y broses o weinyddu'r cynllun yn Lloegr.

### 5. Cynllun Taliadau Ardaloedd Âr

Mae'r Cynllun Taliadau Ardaloedd Âr yn talu iawndal i dyfwyr grawn, hadau olew a chnydau protein am golli incwm o ganlyniad i ostyngiad mewn prisiau cynnal. Mae un elfen o'r cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr osod canran rhagnodedig o dir i'r naill ochr, yn ddychwelyd am yr iawndal. Mae'r gwariant ar y cynllun yng Nghymru yn debygol o gyrraedd tua £11 miliwn yn ystod 2001-02. Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar ansawdd y broses o weinyddu'r cynllun yng Nghymru.

### 6. Adolygiad o Dir Mynydd

Tir Mynydd yw'r cynllun olynol i Lwfansau Iawndal Da Byw Tir Uchel (cyllideb o £33 miliwn yn 2001-02). O dan Dir Mynydd, bydd y taliadau yn seiliedig ar y tir yn hytrach nag ar nifer y gwartheg a'r defaid mynydd. Bwriedir gwneud y taliadau cyntaf o dan y cynllun yng ngwanwyn 2001. Oherwydd bydd rhai ffermwyr yn elwa ar draul eraill, mae'r Cynulliad yn cynnig gosod trefniadau ar waith i leddfu effaith y newid yn y blynyddoedd cynnar.

## Llywodraeth Leol a Thai

*Gwaith a allai gael ei gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003*

**1. Cynllun effeithlonrwydd ynni cartref**

Mae’r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn rhoi grantiau tuag at gost mesurau effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi pobl sy’n cael budd-daliadau, yr anabl a phobl dros 60 oed, ac fe’i sefydlwyd gan Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990. Daeth y Cynulliad yn gyfrifol am y cynllun yng Nghymru yn Ebrill 2000 ac mae’n ymrwymedig i adolygu’r ffordd y mae’n gweithredu yn 2002. Yn y cyfamser, mae’r galw yn cynyddu ac mae pwysau i ymestyn y cynllun. Mae’r Cynulliad yn bwriadu gwario tua £9 miliwn ar y cynllun yn 2001-02, gan gynyddu’r swm i £13 miliwn yn 2003-04, ac ymestyn y cynllun i 38,000 o gartrefi erbyn 2003 gan symud tuag at gyflawni ei darged, sef bodloni anghenion tanwydd pob cartref tlawd erbyn 2010. Byddai’r archwiliad hwn yn edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y cynllun yng Nghymru ers i’r Cynulliad ymgymryd â’r cyfrifoldeb gweithredol dros y cynllun, yn dilyn archwiliad blaenorol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o’r ffordd yr oedd y cynllun yn gweithredu yng Nghymru, Lloegr a’r Alban hyd at Fawrth 1997.

*Pynciau posibl i’w cynnwys yn ystod 2003-2004 neu mewn blwyddyn ddilynol*

**1. Rheoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig**

Ym mis Tachwedd 1998, daeth yr hen Swyddfa Gymraeg yn gyfrifol am swyddogaethau, asedion a chyfrifoldebau Tai Cymru drosodd, a throsglwyddwyd y cyfrifoldebau hyn yn ffurfiol i’r Cynulliad ym 1999. Mae Cyfarwyddiaeth Dai y Cynulliad yn gyfrifol am reoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru, sef un o brif swyddogaethau’r Gorfforaeth Dai yn Lloegr. Ar hyn o bryd, mae’r Cynulliad yn cyflwyno’r gyfundrefn gwerth gorau i sector y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Byddai’r astudiaeth yn edrych ar broses y Cynulliad o reoleiddio perfformiad ariannol landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, yn enwedig eu proses o reoli risg ariannol.

**2. Tai cymdeithasol gwag**

Caiff tai cymdeithasol yng Nghymru eu darparu gan awdurdodau lleol (tua 190,000 uned) a chan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (tua 57,000 uned). Yn gyffredinol, mae gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig stoc tai mwy diweddar o’u cymharu ag awdurdodau lleol ac mae stoc tai awdurdodau lleol mewn cyflwr gwaeth. Ar gyfartaledd, mae 3.3 y cant o dai awdurdodau lleol yn wag, o’i gymharu â 0.3 y cant o dai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. O ganlyniad i hyn, mae awdurdodau lleol yn colli tua £15 miliwn o incwm rhent y flwyddyn tra bod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn colli tua £2 filiwn y flwyddyn. Byddai’r astudiaeth hon yn edrych ar y sector tai cyfan yng Nghymru, gan

amlygu'r rhai sy'n perfformio orau a'r rhai sy'n perfformio waethaf o ran cyfraddau tai gwag, ac yn archwilio'r rhesymau sy'n sail i'r gwahaniaethau hyn mewn perfformiad.

## 3. Trosglwyddo stoc tai cyngor

Mae'r Cynulliad yn amcangyfrif bod ôl-groniad gwerth £750 miliwn o waith trwsio a moderneiddio hanfodol ar dai cyngor yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi cynnal adolygiad o'r broses o drosglwyddo stoc tai a oedd yn ystyried y polisi ynglŷn â throsglwyddo stoc tai awdurdod lleol i berchnogaeth gymunedol fel ffordd o gynhyrchu'r buddsoddiad angenrheidiol. Cafodd canlyniadau'r adolygiad eu hymgorffori yn Strategaeth Tai Cenedlaethol y Cynulliad, a gyhoeddwyd ym Medi 2001. Byddai'r astudiaeth yn edrych ar ganlyniadau'r adolygiad hwn ac ar lwyddiant unrhyw drosglwyddiadau o'r fath wrth leihau'r baich ar gynghorau lleol ac ar y Cynulliad.

## Diwylliant a chwaraeon

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn ystod 2003-2004 neu mewn blwyddyn ddilynol*

**1. Canolfan Mileniwm Cymru**

Bydd y Ganolfan yn cael ei hadeiladu ym Mae Caerdydd a bydd yn llwyfan i'r Celfyddydau yng Nghymru, yn gartref i Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru ac yn darparu cyfleusterau ar gyfer ystod o sefydliadau diwylliannol eraill. Mae gan y Ganolfan gost cyfalaf arfaethedig o £92 miliwn, y bydd £20.5 miliwn yn dod o'r sector cyhoeddus a £10 miliwn o arian y loteri. Nododd adolygiad diweddar bod y rhagolygon ar gyfer y project, o ran cyllideb a refeniw, yn realistig. Bwriedir i'r Ganolfan agor yn 2003-04. Byddai'r astudiaeth yn archwilio pa mor dda y rheolwyd y project a pha mor dda yr oedd y Ganolfan yn gweithredu yn ystod ei blynyddoedd cynnar, yn enwedig o ran costau gweithredu a nifer yr ymwelwyr.

**2. Ehangu mynediad i Lyfrgell Genedlaethol Cymru**

Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru sawl menter ar gyfer ehangu mynediad i'w chasgliadau. Nod Menter y Llyfrgell Agored yw denu mwy o ymwelwyr drwy weithio'n agosach â sefydliadau addysgol a thrwy greu canolfan ymwelwyr. Mae Menter y Llyfrgell Ddigidol yn gosod mwy o ddeunydd y Llyfrgell ar y rhyngrwyd. Yn ogystal â'r mentrau newydd hyn, mae'r Llyfrgell yn parhau i fenthyg deunydd ar gyfer arddangosfeydd teithiol. Byddai'r astudiaeth yn canolbwyntio ar lwyddiant y mentrau hyn wrth ehangu mynediad, pa mor effeithiol y cânt eu rheoli ac i ba raddau mae'r Llyfrgell yn gwneud y mwyaf o ffynonellau incwm allanol er mwyn ariannu ei mentrau.

**3. Arian refeniw'r Loteri gan Gyngor Chwaraeon Cymru**

SPORT LOT yw Cronfa Chwaraeon Genedlaethol y Loteri i Gymru. Mae'n darparu tua £12.5 miliwn y flwyddyn ar gyfer projectau refeniw amrywiol er mwyn iddynt ddatblygu cyfleusterau ac ar gyfer projectau refeniw amrywiol sydd â'r nod o annog mwy o bobl i gymryd rhan, datblygu safonau rhagoriaeth a gwella mynediad i grwpiauna chânt eu cynrychioli'n ddigonol. Bellach mae arian loteri yn symud o brojectau cyfalaf i refeniw, ac o annog pobl i gymryd rhan yn gyffredinol i brojectau a dargedir at leihau eithrio cymdeithasol. Byddai'r astudiaeth yn archwilio pa mor dda y mae'r cyllid yn cael ei reoli, p'un a gynhelir projectau penodol, a pha mor effeithiol yw eu cyfraniad at strategaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer chwaraeon.

## Gweinyddiaeth y Cynulliad ac astudiaethau traws-bynciol

*Pwnc posibl i'w gynnwys yn 2003-2004 neu mewn blwyddyn ddilynol*

### 1. Caffael siambr ddadlau'r Cynulliad Cenedlaethol

Yn ddiweddar penderfynodd y Cynulliad ohirio'r gwaith o adeiladu siambr ddadlau newydd yn dilyn cynyddiadau sylweddol mewn amcangyfrifon cost, gan derfynu cyflogaeth y pensaer ac ymchwilio i opsiynau newydd ar gyfer caffael y project. Dymuna'r Cynulliad leihau costau a risgiau cyffredinol y project, er ei fod yn derbyn y bydd rhai costau ychwanegol o ganlyniad i'r oedi wrth gwblhau'r project. Byddai'r astudiaeth yn dilyn adroddiad blaenorol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Trefniadau adeiladau Cynulliad Cenedlaethol Cymru* (Tachwedd 2000). Byddai'n adolygu gweithdrefnau rheoli project yn erbyn arfer da a'r rhesymau dros y tor-cysylltiad â'r pensaer. Byddai hefyd yn asesu'r opsiynau ar gyfer ailddechrau'r project o ran cost, amseru a risg. Byddai'r archwiliad yn gwneud defnydd llawn o adolygiadau blaenorol o'r project.

### 2. Llywodraeth ar y we yng Nghymru

Mae'r Cynulliad wedi achub y cyfle i geisio sicrhau'r defnydd mwyaf o dechnoleg y rhyngrwyd. Bydd yr astudiaeth yn cymhwyso canfyddiadau astudiaeth 1999 y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddefnydd y llywodraeth o'r dechnoleg hon i asesu'r cynnydd a wneir yng Nghymru. Bydd yr astudiaeth yn cynnwys y cyrff a noddir gan y Cynulliad gan ddadansoddi i ba raddau y cyflawnwyd darpariaeth electronig o wasanaethau cyhoeddus.

### 3. Darparu gwasanaethau yn electronig yng Nghymru

Bydd yr astudiaeth hon yn archwilio gweithgareddau'r Cynulliad wrth hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu mathau electronig o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar sector penodol neu grŵp poblogaeth (megis pobl hyn neu bobl anabl). Bydd yn rhoi cyfle i asesu'r gwaith o gymhwyso agweddau allweddol ar yr agenda Moderneiddio Llywodraeth yng Nghymru, megis darparu gwasanaethau yn electronig, darparu gwasanaethau o safon ac osgoi eithrio cymdeithasol. Bydd yr astudiaeth yn cysylltu ag archwiliad arfaethedig o ddarparu gwasanaethau yn electronig i fodloni anghenion pobl hyn i'w chynnal gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn Lloegr.

### 4. Systemau rheoli perfformiad y Cynulliad

Mae'r Cynulliad yn gyfrifol am ystod o is-gyrff: asiantaethau gweithredol (megis Cadw), a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad (megis Bwrdd Croeso Cymru). Bydd yr astudiaeth yn archwilio a yw'r trefniadau sydd ar waith i oruchwylio is-gyrff yn sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng rheolaeth gan y Cynulliad ar un llaw a rhyddid i weithredu gan y cyrff ar y llaw arall.

## 5. Darparu gwasanaethau i bobl hyn yng Nghymru

Bydd yr astudiaeth hon yn archwilio'r ddarpariaeth 'gydlynus', 'sy'n canolbwyntio ar y cleient' o wasanaethau i bobl hyn yng Nghymru. Gan ddibynnu ar y gwasanaethau a'r astudiaethau achos a ddetholir i'w harchwilio, byddai'r astudiaeth yn edrych ar gydgysylltu rhwng isadrannau o fewn y Cynulliad, gofal iechyd a darparwyr gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr addysg er mwyn datblygu a gweithredu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion pobl hyn yng Nghymru. Bydd yn edrych ar ddatblygiad cyffredinol mentrau sy'n cynnwys pobl hyn, y ddarpariaeth o wasanaethau gan asiantaethau penodol ar lefel leol, ac effaith mentrau penodol ar ansawdd gwasanaethau a ddarperir i bobl oedrannus yng Nghymru.